DOD O HYD INI

Bron Brawf Cymru, 24 Heol Alexandra, Abertawe, SA1 5DY
Ffôn: (01792) 459988 Ffacs: (01792) 650257

TEITHIO MEWN CAR I GANOLFAN BRON BRAWF CYMRU

O'r gogledd neu'r gorllewin
Gadewch draffordd yr M4 ar **Gyffordd 45**. Dewiswch y drydedd ffordd sy'n mynd i gyfeiriad y de ar yr **A4067** sef yr heol i Gastell-nedd (ffordd ddeuol). Ewch yn syth yn eich blaen wrth bob cylchfan. Pan fydd **Stadiwm Liberty** ar y chwith, dewiswch yr ail ffordd sy'n gadael y gylchfan i fynd ar hyd Heol Castell-nedd **B4603** (ffordd sengl). Ewch yn syth yn eich blaen tan fydd yr heol yn troi'n ffordd ddeuol eto. Byddwch chi'n dod i **Stryd y Berllan** sy'n rhan o'r system unffordd. Mae maes parcio NCP ar y dde (rhaid talu am barcio). Ar ôl mynd heibio i NCP, trowch i'r dde i mewn i **Belle Vue**, ac i'r dde eto i mewn i **Heol Alexandra**. Mae canolfan Bron Brawf Cymru mewn tua 200 llath ar y dde.

O'r dwyrain
Gadewch draffordd yr M4 ar **Gyffordd 42** ac ewch ar hyd Fabian Way (**A483**) i Abertawe. Ar ôl cyrraedd y ddinas, ewch ar draws Afon Tawe gan gadw Sainsbury's yn baralel ar y chwith. Arhoswch yn y lôn dde a throwch i'r dde i mewn i **Stryd y Gwynt**. Ewch yn syth yn eich blaen wrth y gylchfan fach i mewn i **Stryd y Castell**, gan fynd heibio i adfeilion y castell ar y dde. Wrth y goleuadau, trowch i'r chwith i mewn i **Stryd y Coleg** ac ewch yn syth yn eich blaen i **Belle Vue,** gan fynd heibio i Westy'r Ddraig ar y chwith. Trowch i'r dde i mewn i **Heol Alexandra**. Mae canolfan Bron Brawf Cymru mewn tua 200 llath ar y dde. Cymerwch y tro nesaf i'r dde i mewn i **Pleasant Street** ac i'r dde wedyn i **Stryd y Berllan**. Mae maes parcio NCP ar y dde (rhaid talu am barcio).

NODWCH NAD OES UNRHYW FANNAU PARCIO PWRPASOL GAN BRON BRAWF CYMRU.

TEITHIO AR FWS NEU DRÊN I GANOLFAN BRON BRAWF CYMRU

Mae bws **Rhif 13** yn gadael Gorsaf Bysus y Cwadrant bob 20 munud i fynd i Belle Vue.
Mae gorsaf reilffordd Abertawe tua 500 llath o ganolfan Bron Brawf Cymru.

Mae sawl gwasanaeth parcio a theithio:
Rhifau 501 o Landŵr (01792 641238), 502 o Fabian Way (01792 474592) a 503 o Fforest-fach.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar www.swansea.gov.uk/parkandride.

Efallai y bydd y rhifau ffôn sy'n dilyn yn ddefnyddiol:
Traveline 0871 2002233 (bysus neu drenau) *National Express* 08705 808080 (bysus)